Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

## Arolygiaeth Gofal Cymru

### Deddf Safonau Gofal 2000

# Adroddiad Arolygu

**This report is also available in English / Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Gofal Plas Garnedd Cyfyngedig**

**LLANFAIRPWLLGWYNGYLL**

**Math o arolygiad – Pwyslais penodol**
**Dyddiad(au) yr arolygiad – Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2018**
**Dyddiad cyhoeddi – (manually entered)**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Crynodeb

### Ynglŷn â'r gwasanaeth

Mae Plas Garnedd Cyfyngedig (gofal yn y cartref) wedi'i leoli mewn swyddfa ar dir Cartref Gofal Plas Garnedd yn Llanfairpwll, Ynys Môn. Mae gan y sefydliad unigolyn cyfrifol enwebedig yn ei le ac mae'r rheolwr, Trevor Hughes, wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal personol i bobl 18 oed a throsodd sydd ag anableddau corfforol a/neu ddysgu, a phobl sydd â dementia.

### Pa fath o arolygiad a gynhaliwyd?

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol a gynhaliwyd i brofi'r maes gwasanaeth y nodwyd yn yr arolygiad blaenorol nad oedd yn bodloni gofynion cyfreithiol Rheoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2004. Gwnaethom ymweld â'r gwasanaeth ar 5 Rhagfyr 2018 rhwng 12.00pm a 13.45pm.
Defnyddiwyd y dulliau canlynol:
• Gwnaethom siarad wyneb yn wyneb â'r bobl ganlynol:
- y rheolwr
- yr unigolyn cyfrifol
- rheolwr tîm
• Gwnaethom siarad ag un gweithiwr gofal dros y ffôn
• Gwnaethom adolygu'r cofnodion canlynol:
- y datganiad o ddiben
- ffeiliau dau aelod o'r staff
- llawlyfr staff
- pecyn sefydlu staff
- polisi diogelu
- polisi chwythu'r chwiban

### Beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda?

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i wella'r maes y gwnaethom nodi yn yr arolygiad blaenorol bod angen sylw arno.

### Beth sydd wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf?

Mae'r darparwr wedi gwella'r systemau sydd ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n agored i niwed y maent yn eu cefnogi.

### Beth sydd angen ei wneud i wella'r gwasanaeth?

Ni wnaed unrhyw argymhellion yn ystod yr arolygiad hwn.

## Ansawdd Bywyd

Mae systemau diogelu ar waith er mwyn diogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr wrthym fod eu trefniadau diogelu wedi datblygu ers yr arolygiad diwethaf. Darparwyd enghreifftiau o'r staff yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol i ddiogelu pobl rhag niwed, tra hefyd yn hyrwyddo hawliau pobl a'u hannibyniaeth. Dywedwyd bod gwelliannau wedi'u gwneud i sesiynau sefydlu a hyfforddi'r staff a oedd yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi gan staff a oedd yn meddu ar ymwybyddiaeth well o egwyddorion diogelu. Cyflwynwyd newidiadau hefyd ar lefel y rheolwyr a oedd wedi gwella eu trosolwg o ddiogelu yn y gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am y rhain yn adran Staffio ac Arwain a Rheoli'r adroddiad hwn. Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed ac esgeulustod.

## Ansawdd y Staffio

Gwnaed gwelliannau i'r trefniadau sydd ar waith er mwyn cefnogi dealltwriaeth a sgiliau'r staff mewn perthynas â diogelu. Gwelsom fod mwy o bwyslais o lawer ar ddiogelu yn ystod o broses sefydlu. Er enghraifft, rhoddir gwybodaeth ysgrifenedig glir i'r staff ynglŷn ag arwyddion a symptomau camdriniaeth a sut y dylent ymateb os oes ganddynt unrhyw bryderon o ran diogelu. Roedd y llawlyfr, a ddarperir i bob aelod o'r staff, yn tynnu sylw at gyfrifoldebau'r staff mewn perthynas â diogelu a chwythu'r chwiban. Yn ogystal â hyn, roedd pob aelod o'r staff yn cael copi o bolisi diogelu'r gwasanaeth, a oedd yn tynnu sylw at ddyletswyddau'r staff a'r gweithdrefnau y byddai'r gwasanaeth yn eu dilyn mewn ymateb. Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban ar waith i gefnogi staff os oedd angen iddynt godi unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad eu cydweithwyr. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym ei fod yn treulio amser un i un gyda phob aelod newydd o'r staff er mwyn sicrhau ei fod yn deall y prosesau diogelu a'u cyfrifoldebau unigolyn yn llawn. Cafodd y gweithgaredd hwn ei ddogfennu o fewn y fframwaith sefydlu a'i ddilyn a'i lofnodi pan gafodd ei gwblhau. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y trefniadau ar waith ar gyfer diogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Cawsom wybod fod pob aelod newydd o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar-lein o fewn chwe wythnos o ddechrau'r swydd, a gwnaeth rheolwyr fynychu hyfforddiant diogelu yr awdurdod lleol. Gwnaethom drafod dulliau o fonitro ymwybyddiaeth barhaol staff o ddiogelu â'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol, a dywedwyd wrthym y caiff diogelu ei gynnwys i'w drafod mewn sesiynau goruchwylio staff a chyfarfodydd tîm. Mae'r bobl yn cael gofal gan wasanaeth sy'n ymrwymedig i sicrhau gwelliant parhaus.

## Ansawdd Arwain a Rheoli

Mae parodrwydd i ddysgu o brofiadau ac mae'r trosolwg o faterion diogelu ar lefel llywodraethu wedi gwella. Dywedodd y rheolwr wrthym, ers yr arolygiad diwethaf, eu bod wedi cymryd mwy o rôl yn y penderfyniadau sy'n ymwneud â chomisiynu pecynnau gofal mwy. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau staffio ar gael gan y gwasanaeth i ddiwallu anghenion pobl yn ddiogel. Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm bob pythefnos a dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym ei fod yn bwriadu cyflwyno diogelu fel mater safonol ar yr agenda yn y cyfarfodydd hyn. Roedd hyn i sicrhau bod diogelu yn cael ei fonitro'n gyson ar lefel y rheolwyr. Mae'r bobl yn cael budd o wasanaeth lle mae'r tîm rheoli yn gweithredu â diwydrwydd a gofal dyladwy.

## Ansawdd yr Amgylchedd

Nid yw'r adran hon yn gymwys i wasanaethau gofal cartref.

## Sut rydym yn arolygu gwasanaethau ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt

Rydym yn cynnal dau fath o arolygiad: sylfaenol a phwyslais penodol. Mae'r ddau yn ystyried profiad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

- Mae **arolygiadau sylfaenol** yn asesu a oes cyfiawnhad dros gofrestru gwasanaeth ac a yw amodau'r cofrestriad yn briodol. Ar gyfer mwyafrif y gwasanaethau, rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn bob tair blynedd. Mae gwarchodwyr plant cofrestredig, gofal y tu allan i'r ysgol, gofal sesiynol, meithrinfeydd a darpariaeth mynediad agored, ar y llaw arall, yn derbyn arolygiad bob pedair blynedd.

  Ar adeg yr arolygiadau hyn, byddwn yn sicrhau bod gan y gwasanaeth Ddatganiad o Ddiben eglur ac effeithiol a bod y gwasanaeth yn cyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn ei Ddatganiad o Ddiben. Wrth asesu p'un a oes cyfiawnhad dros gofrestriad, bydd arolygwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu dangos hanes o gydymffurfio â'r rheoliadau.

- Mae **arolygiadau sydd â phwyslais penodol** yn ystyried profiad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a byddwn yn edrych ar p'un a yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn rhwng arolygiadau sylfaenol. Bydd arolygiadau sydd â phwyslais penodol bob amser yn ystyried ansawdd bywyd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a byddant o bosibl yn edrych ar feysydd eraill.

Gall arolygiadau sylfaenol ac arolygiadau sydd â phwyslais penodol fod yn rhai sydd wedi'u trefnu neu gael eu cynnal mewn ymateb i bryderon.

Mae arolygwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu gwybodaeth yn ystod arolygiadau, a all gynnwys;

- Siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u cynrychiolwyr
- Siarad â'r staff a'r rheolwr
- Edrych ar ddogfennau
- Arsylwi ar yr amgylchedd a'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl
- Edrych ar sylwadau a wnaed mewn holiaduron a ddychwelwyd gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y staff, a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol

Rydym yn arolygu ac yn nodi ein canfyddiadau dan 'Themâu Ansawdd'. Cyfeirir at y rhai hynny sy'n berthnasol i bob math o wasanaeth yn ein hadroddiadau arolygu.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud yn ein taflen 'Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru'. Gallwch lawrlwytho hon o'n gwefan, Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, neu gallwch gysylltu â ni i ofyn i ni anfon copi atoch.

Ni chafwyd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio mewn statws Agored.